Cymunedau Digidol Cymru
Hyder Digidol, Iechyd a Lles
Digital Communities Wales
Digital Confidence, Health and Well-being
Darparwyd gan
Delivered by
cwmpas
Rhaglen Llywodraeth Cymru
Welsh Government Programme

## Astudiaeth achos

# ClwydAlyn



Mae Louise Blackwell, cyn Swyddog Datblygu Cymunedol gyda Chymdeithas Dai ClwydAlyn, yn esbonio sut mae technoleg ddigidol wedi gwella ansawdd bywyd y bobl fregus y mae ClwydAlyn yn eu cefnogi.

Mae ClwydAlyn yn gymdeithas dai sy’n cefnogi ystod eang o bobl a’u hanghenion. Eu datganiad cenhadaeth yw ‘gyda’n gilydd i drechu tlodi’, ac mae’r sefydliad elusennol yn darparu llety anghenion cyffredinol, yn ogystal â rhedeg cynlluniau tai gwarchod, llochesi cysgu ar y stryd, cynlluniau byw â chymorth, cynlluniau gofal ychwanegol a chymorth i’r genhedlaeth hŷn.

### Dywedodd Louise:

> “Rydym yn gwasanaethu amrywiaeth eang o bobl yn cynnwys pobl sy’n cysgu ar y stryd, pobl ifanc, pobl hŷn, teuluoedd un rhiant a’r rheiny ag anghenion gofal ychwanegol.”

Er bod anghenion y bobl hŷn a bregus y mae ClwydAlyn yn eu cynorthwyo yn amrywio, mae eu gwaith tuag at gynhwysiant digidol wedi gwella ansawdd bywyd eu preswylwyr, beth bynnag fo’u cefndir.

### Esboniodd Louise:

> “Gan ei bod ni’n gweithio gyda charfan mor amrywiol o bobl, mae eu hanghenion yn amrywio. Mae rhai o’n preswylwyr yn ei chael hi’n anodd cael gwaith, ond gall defnyddio technoleg ddigidol eu helpu gyda hyn, p’un a yw’n mynychu cyfweliadau ar-lein neu’n llenwi ceisiadau am swyddi. Ond mae gan ein preswylwyr hŷn fwy o ddiddordeb mewn defnyddio technoleg i gadw mewn cysylltiad â’u teulu a’u ffrindiau ac i ddefnyddio technoleg er mwynhad.”

Ar hyd y blynyddoedd, mae ClwydAlyn wedi ymgymryd ag amrywiaeth o brosiectau cymunedol gwahanol sydd o fudd i'r bobl y maent yn eu gwasanaethu a'r gymuned leol. Mae llawer o'r prosiectau hyn yn cefnogi cynhwysiant digidol, fel eu prosiect darllen mewn parau, a oedd yn paru preswylwyr tai gwarchod â phlant ysgol i rannu sgiliau.

## Esboniodd Louise:


> "Roedd y preswylwyr tai gwarchod yn helpu'r bobl ifanc gyda'u sgiliau darllen drwy wrando arnynt yn darllen, ond gan fod y cyfan yn cael ei wneud dros e-ddarllenwyr, mae'r bobl ifanc hefyd wedi gallu dysgu'r preswylwyr sut i ddefnyddio'r dechnoleg."

Ar ôl nodi bod pobl hŷn, yn eu cynlluniau gofal ychwanegol, eisiau dysgu sgiliau technegol newydd, penderfynodd Louise a'r Cynorthwy-ydd Cymorth Cymunedol, Erin, rannu eu gwybodaeth â'u preswylwyr.

## Dywedodd Louise:

> "Roedden nhw eisiau defnyddio technoleg ar gyfer popeth o edrych ar batrymau gwau i hel achau teuluol. Trefnom sesiynau un-i-un cyn y Nadolig, rhag ofn y byddai unrhyw un eisiau defnyddio technoleg i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau dros y gwyliau. Gan fod hynny wedi bod yn llwyddiannus, a chawsom adborth hyfryd, gofynnwyd i ni ddod yn ôl eto a gwneud mwy."

Mae ClwydAlyn wedi bod yn gweithio gyda Cymunedau Digidol Cymru i ehangu eu cynnig digidol. Roedd un prosiect yn cynnwys prynu pecyn realiti rhithwir i gefnogi cyfleusterau gofal ychwanegol yn ystod y cyfnod clo ond mae'n parhau i fod o fudd i breswylwyr. Mae rheolwyr gofal ychwanegol wedi bod yn rhannu'r set realiti rhithwir ymhlith preswylwyr hŷn i wneud popeth o sesiynau myfyrdod i deithio o gwmpas y byd i gerdded gyda deinosoriaid, gan ganiatáu iddynt gael ychydig o hwyl a rhoi hwb i'w hiechyd meddwl.



Llwyddiant arall fu rhaglen benthyg tabledi ar gyfer cynlluniau gofal ychwanegol a thai gwarchod ClwydAlyn. Os nad yw preswylydd yn berchen ar ffôn neu dabled ei hun neu os na all eu fforddio ond yr hoffai ddefnyddio technoleg, gall fenthyg tabled trwy'r rhaglen.

## Dywedodd Louise:

> Mae'r tabledi wedi cael eu defnyddio i helpu preswylwyr gyda phopeth o sefydlu cartref os oedden nhw newydd symud i dai gwarchod, i gadw mewn cysylltiad yn ystod y cyfnod clo. Mae wedi galluogi pobl i gadw mewn cysylltiad, sy'n enfawr o ran lles.

Mae'r Cynorthwy-ydd Datblygu Cymunedol, Erin, hefyd wedi dilyn hyfforddiant gyda Cymunedau Digidol Cymru i fod yn Bencampwyr Digidol. Ymunodd Erin â ClwydAlyn o Brosiect SEARCH Sir y Fflint, sef cydweithrediad rhwng ClwydAlyn, yr elusen cymorth anabledd dysgu HFT a Chyngor Sir y Fflint. Mae'r prosiect yn gweithio gyda phobl ifanc ag anableddau dysgu neu awtistiaeth, i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau parodrwydd am swydd a chael gwaith. Mae Erin wedi bod yn defnyddio ei hyfforddiant i helpu preswylwyr i ddysgu sgiliau digidol newydd, ond mae'r prosiect wedi rhoi hwb i'w hyder hefyd.

## Dywedodd Louise:

> Mae'n hyfryd ei weld. Mae'n braf nid yn unig i'r preswylwyr ac yn gwneud gwahaniaeth, ond mae hefyd yn dysgu sgiliau i Erin y gall hi eu defnyddio wrth chwilio am swydd yn y dyfodol.

Mae Louise yn credu y gall technoleg ddigidol wneud gwahaniaeth i fywydau pawb, a dyna pam y mae'n bwysig trafod technoleg ddigidol mewn iaith y gall pawb ei deall.

## Esboniodd:

> Gall technoleg ddigidol fod yn ddychrynllyd i ddechrau a gall defnyddio jargon cymhleth hefyd rwystro pobl. Mae'n awgrymu 'nad yw technoleg yn addas i mi.' Mae technoleg ddigidol yn addas i bawb ac mae gallu defnyddio technoleg ddigidol yn amhrisiadwy. Mae'n bwysig bod yn gynhwysol.

Yn y dyfodol, mae ClwydAlyn yn bwriadu parhau i hyrwyddo cynhwysiant digidol ymhlith y gwahanol grwpiau y maent yn eu cefnogi, yn ogystal â pharhau i ddatblygu prosiectau gyda phartneriaid a sefydliadau sy'n rhannu'r un meddylfryd.

## Dywedodd Louise:

> Mae gan bob grŵp rywbeth i'w gynnig i un arall, ac rydym eisiau parhau i archwilio beth mae pobl ei eisiau gan weithio gyda Cymunedau Digidol Cymru a phartneriaid eraill i ddod â phawb at ei gilydd.



## Tri awgrym gan Gymdeithas Dai ClwydAlyn:

1. **Gellir defnyddio technoleg ddigidol mewn ffyrdd gwahanol i ddiwallu anghenion gwahanol**
2. **Peidiwch â defnyddio jargon**
3. **Mae technoleg ddigidol ar gyfer pawb**

**Helpwch eich cymuned i ddysgu sgiliau digidol sy'n newid bywydau gyda'n hyfforddiant rhad ac am ddim.**

**I gymryd rhan, ewch i:**

digitalcommunities.gov.wales/cy/ 0300 111 5050 @DC_Wales